Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 12 Hydref 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 18 HYDREF 2017** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HWN O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI** (Tudalennau 7 - 14)

I ystyried adroddiad, **yn cynnwys atodiad cyfrinachol**, gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi ei amgáu) yn ceisio penderfyniad gan yr aelodau ar gais gan Berchennog Cerbydau Hacni am drwyddedu cerbyd i bwrpas trwyddedu cerbydau hacni.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**5 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 520509** (Tudalennau 15 - 28)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais gan Ymgeisydd Rhif 520509.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Carson Irving (Cadeirydd)
Alan James (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
Brian Jones
Barry Mellor
Melvyn Mile
Arwel Roberts
Peter Scott
Thomas
Rhys Thomas
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**PWYLLGOR TRWYDDEDU
GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion. |

| | |
|---|---|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:<br><br>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.<br><br>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 18 Hydref 2017 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706066 |
| **TESTUN:** | Cais am Drwydded Cerbyd Hacni |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Ystyried cais gan Mr. Terry Ledden, perchennog Ledden's Taxis yn Y Rhyl a pherchennog cerbyd hacni sefydledig, i drwyddedu cerbyd er mwyn ei ddefnyddio fel cerbyd hacni.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn unol ag awdurdod dirprwyedig, gall swyddogion trwyddedu ddyfarnu neu wrthod ceisiadau ar gyfer cerbydau hacni sydd o fewn y polisi cyfredol.

2.2 Tra bod gan swyddogion awdurdod dirprwyedig i ddyfarnu trwyddedau fel y disgrifir yn 2.1 uchod, nid yw hyn yn cynnwys cerbydau nad ydynt yn cwrdd y fanyleb gyfredol fel y disgrifir yn y polisi cyfredol.

2.3 Wedi derbyn cais o'r fath, gofynnir i'r Aelodau felly i ystyried a fyddai'n addas gwyro oddi wrth y polisi cyfredol y tro hwn.

## 3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Mr Ledden wedi cysylltu â'r Cyngor er mwyn trwyddedu nifer o gerbydau "newydd i'r fflyd" at bwrpas trwyddedu cerbydau hacni.

4.2 Cafodd polisi cyfredol y Cyngor ei gymeradwyo gan Aelodau fis Rhagfyr y llynedd, a daeth i rym ym mis Mehefin eleni, ac mae'n cynnwys gofyniad penodol am le i goesau, sef yn amod 6.4.1 *"Bydd isafswm o*

*200mm o ofod coesau ar gael i unrhyw deithiwr. Bydd y mesuriad yn cael ei wneud o waelod y sedd hyd at ganol cefn y sedd o'i blaen pan fo'r sedd flaen wedi'i hymestyn cyn belled ag y gallai am yn ôl. Lle nad oes sedd o flaen sedd arall bydd y mesuriad yn cael ei wneud o waelod y sedd i'r rhwystr agosaf o flaen y sedd."*

4.3 Ceir stad Dacia Logan oedd y cerbydau a gyflwynodd Mr Ledden i Wasanaethau'r Fflyd ar 2 Hydref 2017 a phan gymerodd Gwasanaethau Fflyd y mesuriadau, 157mm oedd y gofod coesau. Felly gwrthodwyd y cerbydau.

4.4 Mae Mr Ledden wedi gofyn i'r penderfyniad gael ei roi gerbron Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu ac mae wedi ei wahodd i fynychu.

## 5 YSTYRIAETH

5.1 Wrth ystyried y cais hwn i wyro oddi wrth ein polisi cyfredol, dylai Aelodau fod yn fodlon fod yr ymgeisydd wedi darparu achos clir i wyro.

5.2 Nid oedd unrhyw ofyniad penodol yn y polisi blaenorol ar gyfer isafswm gofod. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2010 cymeradwyodd Aelodau ddogfen ganllawiau ar gyfer Profi Cydymffurfedd Tacsis. Wrth gyfeirio at seddi mae'r ddogfen hon yn nodi *"Seddi – Bydd gan bob sedd i deithiwr glustog sy'n 400mm o led a 350mm o'r blaen i'r cefn o leiaf, a byddant wedi eu gosod mewn modd sy'n golygu fod isafswm o 660mm o ofod coesau, wedi ei fesur o wyneb cefn y sedd at ran agosaf y sedd sydd o'i blaen, wedi ei fesur yn llorweddol, ar wahân i lle mae'r seddi yn wynebu ei gilydd h.y. seddi cynhadledd, ni fydd y pellter rhwng wynebau cefn y seddi sy'n groes i'w gilydd yn llai na 1300mm ac ni fydd y bwlch rhwng ymylon blaen clustogau sedd sy'n groes i'w gilydd yn llai na 425mm.*
*Bydd gan bob sedd isafswm gofod pen o 900mm wedi ei fesur o bwynt canolog clustog y sedd lle mae'n cwrdd cefn y sedd, wedi ei fesur yn fertigol.*

5.3 Cyflwynwyd fersiwn gyfredol y Polisi a'r Amodau er mwyn darparu eglurder i drwyddedai a chysondeb safon y cerbydau sy'n cael eu trwyddedu ac maent yn berthnasol i gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

5.4 Mae Mr. Ledden wedi cyflwyno dogfen sy'n cefnogi ei gais, sydd i'w gael yn Atodiad 1.

5.5 Mae Swyddogion wedi ymchwilio i’r gofynion o ran seddi mewn nifer o awdurdodau eraill ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys y rheiny yn yr ardal gyfagos, ac maent wedi dod i'r canlyniad nad oes safon na chanllaw cenedlaethol o ran maint gofod coesau. Mae’r darganfyddiadau yn cael eu crynhoi yn Atodiad 2.

5.6 Bydd Aelodau am nodi fod nifer o gerbydau eraill sy’n union yr un fath neu sy’n debyg eisoes wedi eu trwyddedu ac er bod y rhain wedi eu cymeradwyo cyn mabwysiadu'r polisi cyfredol byddant bellach yn agosáu at eu dyddiad adnewyddu neu ddyddiad eu prawf cydymffurfedd a gynhelir bob 6 mis.

5.7 Wrth ystyried y cais hwn, bydd angen i Aelodau gydbwyso diddordeb a barn yr ymgeisydd, gyda'r goblygiadau posib ar fflyd tacsis Sir Ddinbych a’r posibilrwydd o dderbyn nifer cynyddol o geisiadau tebyg gan ymgeiswyr sydd am i’w cais gael ei ddwyn o flaen Aelodau, yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 I Aelodau ystyried yr holl wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ac i Aelodau felly benderfynu un ai i:

- Wyro oddi wrth y polisi cyfredol a chymeradwyo'r cerbyd fel un addas i'w drwyddedu fel cerbyd hacni

- Wrthod y cais i’r cerbyd gael ei drwyddedu fel cerbyd hacni

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Tabl cymhariaeth o fanylebau cerbydau Awdurdodau Lleol o ran lle i'r coesau** Atodiad 2

| | |
|---|---|
| Guilford | Lle i'r pengliniau: mae'n rhaid cael digon o le rhwng y seti blaen a'r seti cefn i'r gyrrwr a'r teithwyr eistedd yn weddol gyfforddus.<br>Mae'n rhaid i bob sedd i deithiwr fod ag o leiaf 7 ¼" (18.42cm) o le i'r coesau, wedi ei fesur o ymyl blaen y sedd i gefn y sedd flaen, dangosfwrdd neu banel mewnol.<br>http://www.guildford.gov.uk/media/10155/Vehicle-specifications/pdf/Vehicle_specifications.pdf |
| East Riding | Mae'n rhaid cael o leiaf 7 modfedd rhwng cefn un sedd a blaen sedd arall.<br>Mae'n rhaid i bob sedd i deithiwr fod ag o leiaf 180mm o le i'r coesau, wedi ei fesur o ymyl blaen y sedd i gefn y sedd flaen, dangosfwrdd neu banel mewnol.<br>http://www2.eastriding.gov.uk/EasySiteWeb/GatewayLink.aspx?alId=105389 |
| Gogledd Tyneside | Mesurir y lle i'r coesau yn groeslinol o gefn y sedd i lawr y cerbyd - 92.5cm (37").<br>Mesurir y gofod o flaen sedd o gefn y sedd - 62.5cm (25").<br>http://my.northtyneside.gov.uk/sites/default/files/web-page-related-files/VEHICLE%20Spec%2004.pdf |
| Dundee | Mae'n rhaid i bob sedd i deithiwr fod ag o leiaf 180mm o le i'r coesau, wedi ei fesur o ymyl blaen y sedd i gefn y sedd flaen, dangosfwrdd neu banel mewnol.<br>https://www.dundeecity.gov.uk/sites/default/files/Guidance%20Notes.pdf |
| Caergrawnt | O leiaf 8.5 modfedd o le i goesau teithwyr sy'n eistedd yn y cefn, wedi ei fesur o golofn y drws cefn i'r pwynt agosaf ar glustog y sedd gefn.<br>https://www.cambridge.gov.uk/sites/default/files/taxi-guide.pdf |
| Crawley | Mae'n rhaid i bob cerbyd allu caniatáu i bob teithiwr eistedd yn gyfforddus gyda digon o le i'r coesau.<br>http://www.crawley.gov.uk/pw/web/PUB286926 |
| Knowsley | Lle coesau teithwyr sy'n eistedd yn y cefn<br>O leiaf 7" [178mm] - sedd flaen wedi ei rhoi yn ôl.<br>http://www.knowsley.gov.uk/pdf/vehicle-test-standards-including-hc-vehicle-approved-types-rules.pdf |
| Dwyrain Swydd Aeron | Er mwyn darparu digon o le i draed teithwyr mae'n rhaid cael arwynebedd llawr clir o flaen y sedd sy'n 300mm o hyd, 250mm o led a 80mm o uchder.<br>https://www.east-ayrshire.gov.uk/Resources/PDF/L/LicensingTaxiPHCVehicleSpecifications.pdf |
| Gwlad yr Haf | Seddi cefn/canol - mae'n rhaid cael o leiaf 650mm (tua 25 ½ modfedd) o le rhwng cefn y sedd a chefn y sedd flaen.<br>https://www.n-somerset.gov.uk/wp-content/uploads/2015/10/vehicle-specification-policy.pdf |
| Gogledd Sir Gaerhirfryn | O leiaf 203mm rhwng y seddi blaen a chefn.<br>http://www.northlanarkshire.gov.uk/CHttpHandler.ashx?id=5536&p=0 |
| Tameside | iii) Lle i'r coesau, seddi cefn - Mae'n rhaid cael oddeutu 750mm (tua 29 ½ modfedd) o le rhwng cefn y seddi a chefn y seddi o'u blaenau.<br>http://www.tameside.gov.uk/licensing/privatehire/conditions |

**Tabl cymhariaeth o fanylebau cerbydau Awdurdodau Lleol o ran lle i'r coesau**

| | |
|---|---|
| Sheffield | Bydd o leiaf 609mm o ofod coesau ar gael i unrhyw deithiwr. Bydd y mesuriad yn cael ei gymryd o waelod y sedd i gefn y sedd o'u blaen pan fo'r sedd flaen wedi'i hymestyn cyn belled ag y gallai am yn ôl. Lle nad oes sedd o flaen sedd arall bydd y mesuriad yn cael ei gymryd o waelod y sedd i'r rhwystr agosaf o flaen y sedd. https://www.sheffield.gov.uk/content/dam/sheffield/docs/business/taxi-licensing/Private%20Hire%20Operator%20and%20Vehicle%20Policy.pdf |
| Blackpool | Mae'n rhaid i bob sedd i deithiwr fod ag o leiaf 180mm o le i'r coesau, wedi ei fesur o ymyl blaen y sedd i gefn y sedd flaen, dangosfwrdd neu banel mewnol. https://www.blackpool.gov.uk/Business/Licensing-and-permits/Documents/Taxi-Policy-2016.pdf |
| Cernyw | Bydd o leiaf 200mm (8 modfedd) o ofod coesau ar gael i unrhyw deithiwr. Bydd y mesuriad yn cael ei gymryd o ymyl clustog y sedd i gefn y sedd/gwrthrych o'i blaen. Lle nad oes sedd /gwrthrych o flaen sedd arall bydd y mesuriad yn cael ei gymryd o waelod y sedd i'r rhwystr agosaf o flaen y sedd. http://www.recycleforcornwall.org.uk/media/5830606/Hackney-Carriage-and-Private-Hire-Vehicle-Specification.pdf |
| Hart | Mae'n rhaid i ddimensiynau pob sedd fod yn addas ar gyfer oedolyn a darparu digon o le i'r coesau. https://www.hart.gov.uk/sites/default/files/2_Businesses/Licensing_and_permits/Taxis/Hart%20DC%20Exempt%20vehicle%20policy%20Rev1%20July%202016_0.pdf |
| Worthing | Mae'n rhaid i bob cerbyd allu caniatáu i bob teithiwr eistedd yn gyfforddus gyda digon o le i'r coesau. https://www.adur-worthing.gov.uk/media/media,139509,en.pdf |
| Basingstoke | Mae'n rhaid cael o leiaf 28" rhwng clustog y seddi cefn / canol a chefn y seddi blaen / canol pan fo rhywun yn eistedd ymhob sedd (mae seddi canol yn berthnasol i gerbydau amlbwrpas yn unig). https://www.basingstoke.gov.uk/content/page/30982/9%20Private%20Hire%20Vehicle%20Specification%20.pdf |
| **Awdurdodau Cyfagos** | |
| Conwy | Dim polisi o ran gofod coesau |
| Ynys Môn | Dim polisi o ran gofod coesau |
| Sir y Fflint | Dim polisi o ran gofod coesau |
| Wrecsam | Dim polisi o ran gofod coesau |
| Gwynedd | Dim gwybodaeth ar gael ar adeg paratoi'r ddogfen hon |
| Sir Amwythig | Dim polisi o ran gofod coesau |

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag